**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: VG/0326/20

Dr Dai Lloyd
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

29 Medi 2020

Annwyl Dai,

Gallaf gadarnhau bod Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi cyflwyno Achosion Busnes Amlinellol i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynllun Ysbyty Canser newydd. Mae'r rhain yn mynd drwy brosesau craffu ar hyn o bryd a byddaf yn cael cyngor ffurfiol maes o law er mwyn gwneud penderfyniad.

Mae'r cynllun yn un o'r tri y mae Gweinidogion Cymru yn eu datblygu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol a gyllidir drwy arian refeniw. Safle'r Dolydd Gogleddol yw'r un a ffefrir gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y Ganolfan Ganser newydd, sydd eisoes â chaniatâd cynllunio amlinellol.

Rwyf yn ymwybodol bod pryderon wedi'u codi ynglŷn â'r effaith amgylcheddol ac ynglŷn â'r model clinigol. Ni allaf wneud sylw am y pwyntiau hyn ar hyn o bryd oherwydd gallai hynny ragfarnu'r cyngor yr wyf i fod i'w gael yn ystod y misoedd nesaf ar y cynllun ei hun.

Hefyd, fel sy'n wir am bob newid arfaethedig i wasanaethau, ni all Gweinidogion Cymru wneud sylwadau ar yr hyn sy'n cael ei gynnig gan yr Ymddiriedolaeth. Mae gan Gynghorau Iechyd Cymuned y gallu i gyfeirio materion newid gwasanaethau at Weinidogion Cymru ar sawl sail, gan gynnwys os ydynt o'r farn nad yw'r newid er budd y gwasanaeth iechyd. Yna caiff Gweinidogion Cymru wneud penderfyniad ar y mater. O'r herwydd, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau nad ydym yn gwneud sylwadau ar gynigion ar gyfer newid gwasanaethau rhag ofn y gwneir atgyfeiriad o'r fath.

Yr hyn y gallaf ei ddweud ar hyn o bryd yw y bydd y pryderon a godwyd am y model clinigol yn cael eu hystyried yn llawn yn y cyngor a gaf pan ofynnir imi ystyried fersiwn derfynol yr Achos Busnes Amlinellol. Mae'r Prif Swyddog Meddygol hefyd wedi gofyn i Ymddiriedolaeth GIG Felindre geisio cyngor annibynnol ar ei model clinigol arfaethedig ac i ymgysylltu eto â'r gymuned glinigol ynglŷn â'r model rhanbarthol.

Mae Felindre wedi penodi'r Nuffield Trust i roi cyngor clinigol annibynnol iddi, a fydd yn ystyried y pryderon a godwyd a'r arferion ledled y DU. Bydd y cyngor hwn yn rhan o'r cynnig

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

terfynol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru i'w ystyried, pan ofynnir iddi gymeradwyo'r Achos Busnes.

Ar y cyd â datblygu'r Achos Busnes, mae amrywiaeth o weithgareddau eraill ar y gweill hefyd, gan gynnwys y gofynion cynllunio sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Mae'r rhain yn amodol ar benderfyniad lleol gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Caerdydd ac mae posibilrwydd y gallent gael eu galw i mewn gan Lywodraeth Cymru. Felly, nid yw'n briodol cynnig sylwadau ar y broses hon, gan y gallai hynny ragfarnu safbwynt Gweinidogion Cymru pe bai'r mater yn dod ger eu bron yn ddiweddarach.

Serch hynny, deallaf natur y pryderon sy'n cael eu codi ond ni allaf wneud sylw amdanynt gan y gallai fod yn ofynnol imi wneud penderfyniad ar y cynigion yn y dyfodol.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services